

Cyfarfod Is Bwyllgor Meysydd Chwarae Nos Fawrth 28/09/2021

Preseanol - Cadeirydd, Gareth Griffiths, Elfed Wyn Williams a Rhian Evans-Hill

Ymddiheuriadau - Jane Pierce

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod gan ddiolch i bawb am ymuno. Cyfarfod yw hwn i grynhoi gwybodaeth yn dilyn trafodaethau ac ymgynghoriad i geisio gweld os bu ffordd i'r Cyngor fabwysiadau Meysydd Chwarae o dan gais Cyngor Gwynedd. Meysydd Chwarae o holl bentrefi'r plwyf, sef 8 Cae Chwarae ac 1 cae pêl-droed gydag adeilad.

Rydym fel is bwyllgor wedi trafod, ar fwy nac un achlysur gyda swyddogion o'r Cyngor Sir. Rydym wedi edrych ar sawl ffaith ynglŷn â'r posibilïadau o wneud hyn, a hefyd wedi edrych ar y posibilïadau o gyd weithio gyda'r Cyngor Sir.

Ni does posib i ddim mudiad wneud hyn, gan fod yn rhaid i bwyllgor neu grŵp statudol fel Y Cyngor Cymuned wneud hwn.

Yn ystod ein cyfarfodydd gyda swyddogion Y Cyngor Sir, bu mwy o drafodaeth am gae pêl droed Deiniolen, a bu i'r swyddogion, ac I Elfed yn naturiol geisio symud hyn yn ei flaen. A dweud y gwir roedd mwy o flaenoriaeth i weld ar y cae yma sydd yn wahanol iawn i'r 8 arall, gan fod adeilad ynghlwm.

Bu i mi wneud ymchwiliad ar bob cae chwarae a chafwyd adroddiad ar gyflwr pob un yn cynnwys yr offer. Cawsom hefyd ymchwiliad i gostau cynnal bob un yn flynyddol, a hynny heb orfod trwsio na ail osod offer Newydd yng nghynnwys y pris.

Rydym wedi cymryd bron I 3 blynedd i ddod i ddiwedd ein ymchwiliad a'n trafodaethau, ac felly mae'n rhaid erbyn hyn I Gyngor Llanddeiniolen wneud penderfyniad yn dilyn hyn i gyd. Mae'r Is Bwyllgor yn awyddus i roi eu hawgrymiadau yn dilyn edrych ar sawl gwahanol elfen:

Mae tystiolaeth o'r ymchwiliad yn awgrymu i'r is bwyllgor na fuasai yn benderfyniad doeth I Gyngor Cymuned Llanddeiniolen gymryd y baich yma gan Gyngor Gwynedd oherwydd y rhesymau a nodir isod:

1. Mae nifer o'r meysydd Chwarae gydag offer gwahanol ym mhob un. Sut byddwn yn dewis y maes chwarae yma yn hytrach na un arall yn y plwyf?
2. Byddai rhaid bod yn wylïadwrus fod offer addas, arbenigol ar gael, ac o bosib newidiadau mewn deddfau, neu orfod diogelu safleoedd, neu'r ffordd mae'r meysydd yn cael eu defnyddio, ac o bosib i aml bwrpas. Mae sawl syniad wedi cael eu rhoi ymlaen o bethau sydd yn bosib, mae hyn yn wych wrth gwrs, ond nid oes dim un grŵp cymunedol wedi dod ymlaen i ddangos diddordeb i wneud hyn.
3. Cawsom ddau gyfarfod penodol gyda swyddogion o'r Cyngor Sir, ac roedd y pwyslais a'r hanes wedi newid rhwng y cyfarfod cyntaf a'r ail.

4. Ni yn unig mae angen Corff Statudol fel ni i gymryd hyn drosodd, ond hefyd mae angen cydweithrediad gan fudiad neu bwyllgor o bob cymuned i gyd weithio. Fel rydym wedi nodi eisoes, nid oes neb wedi dangos diddordeb yn hyn o'r cymunedau, ac felly yn amhosib i ni wneud hyn ein hunain.
5. O ran y cae pêl-droed, teimlwn fod cyfrifoldeb mawr ynglŷn â chymryd gofal o'r adeilad, a'r defnydd. Megis cadw dyddiadur, agor a chau, glanhau, cael monitor safon y dŵr gyda legionella, a'r trydan.
6. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau yma yn cael eu cynnal gan Gyngor Gwynedd, ac o dan adain Treth Y Cyngor. Mi fu rhaid i'r Cyngor Cymuned godi Praesept, posib o ddwbl i sicrhau'r gwasanaeth.

Yn naturiol, fel Cyngor Cymuned, mi fydda'n bleser gennym i gymryd gofal o'r gwasanaeth yma, neu ran ohono, ond nid ydym mewn sefyllfa yn ein tyb ni oherwydd y rhesymau a nodwyd uchod a diffyg diddordeb a chefnogaeth o'r gymuned. Efallai bydd cyfle eto i edrych ar y sefyllfa ymhell ach yn y dyfodol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi gaddo na fydd y gwasanaeth yn dod i ben – ond mi fydd y Cyngor Sir yn dal i gynnal y gwasanaeth yma.